# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**21 CHWEFROR 2020**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, T.A.J. Davies, J.A. Davies, K. Davies, P.M. Edwards, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, J.D. James, B.D.J. Phillips, A.D.T. Speake ac A. Vaughan Owen.

Y Cynghorydd W. T. Evans - yn lle'r Cynghorydd J.S. Phillips;
Y Cynghorydd K.V Broom - yn lle'r Cynghorydd D. Thomas.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd;
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

R. S. Waters, Rheolwr Priffyrdd a Chludiant;
S. Charles, Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 10:00yb - 11:20yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Morgan, S. Phillips a D. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. Y DIWEDDARAF YNGHYLCH Y RHAGLEN FUDDSODDI O RAN PRIFFYRDD, TROEDFFYRDD A DIOGELWCH FFYRDD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddaru ynghylch y Rhaglen Fuddsoddi o ran Priffyrdd, Troedffyrdd a Diogelwch Ffyrdd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau mewn perthynas â diogelwch ffyrdd a seilwaith cysylltiedig.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am yr agweddau canlynol:-

- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Y Ddeddf Teithio Llesol a Rhwymedigaethau'r Awdurdod Lleol
- Llwybrau Diogel mewn Cymunedau
- Rhaglen Gwella Diogelwch Ffyrdd a Gwella Troedffyrdd
- Grant Diogelwch Ffyrdd (Cyfalaf a Refeniw)
- Rhaglen Rheoli Traffig ac Atal Damweiniau

Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r cyllid ar gyfer cynlluniau yn ymwneud â diogelwch ffyrdd a chynlluniau seilwaith eraill yn 2019/20 a'r rhaglen wedi'i blaenoriaethu ar gyfer diogelwch ffyrdd, troedffyrdd a seilwaith arall.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gais, rhoddodd Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd ddiweddariad ar lafar ynghylch cynnydd Llwybr Dyffryn Tywi. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod:

  - trafodaethau â thirfeddianwyr yn parhau,
  - cais cynllunio wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer y rhan orllewinol,
  - cais cynllunio wedi cael ei wneud ar gyfer y rhan ddwyreiniol - oedi oherwydd amodau ar waith gan CNC
  - gwaith adeiladu wedi dechrau ar ran orllewinol y llwybr ger Felin-wen,
  - ceisiadau pellach wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y rhan orllewinol.

- Mewn perthynas â'r stormydd diweddar sydd wedi achosi i lefelau'r dŵr godi'n sylweddol, gofynnwyd a oedd dadansoddiad wedi cael ei wneud o hyd a lled y llifogydd ar y llwybr. Dywedodd Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd fod arolwg modelu llifogydd manwl wedi cael ei gyflawni ar gyfer y llwybr cyfan. Cydnabuwyd, o ystyried natur y llwybr sy'n rhedeg ar hyd afon Tywi, y derbyniwyd y byddai llifogydd yn digwydd. Roedd mesurau llifogydd ar waith a hynny drwy gatiau a gweithdrefnau gweithredol.

- O ran gwelliannau diogelwch ffyrdd, mynegwyd pryder mewn perthynas â'r angen i leihau'r terfyn cyflymder y tu allan i Ysgol Nantgaredig i 20mya, sef rhywbeth y gofynnwyd amdano sawl gwaith. Dywedodd Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd, er nad oedd ef yn bersonol yn ymdrin â'r ceisiadau am leihau'r terfyn cyflymder, fod nifer o ffactorau a oedd yn dylanwadu ar gyflwyno newid i'r terfyn cyflymder. Byddai'r Gweithgor Terfynau Cyflymder yn ystyried ceisiadau gan ofyn am gefnogaeth y gymuned ar gyfer y newid ac i'r terfyn cyflymder fod yn hunanorfodol lle bynnag y bo modd.

Dywedodd Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd y byddai'n cysylltu â'r cynghorydd lleol y tu allan i'r cyfarfod ynghylch y mater.

- Ar gais y Pwyllgor, roedd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd wedi ysgrifennu llythyr at y Gweinidog dros Drafnidiaeth yn mynegi pryderon ynghylch y cyllid annigonol sydd ar gael i ddatblygu seilwaith cerdded a beicio [gweler cofnod 8.2, 5 Gorffennaf 2019]. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod ymateb wedi dod i law gan Lee Waters, y Gweinidog dros Drafnidiaeth a rhoddodd grynodeb ar lafar o'r llythyr i'r Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r llythyr yn cael ei rannu ag aelodau'r Pwyllgor.

- Cyfeiriwyd at Lwybrau Diogel mewn Cymunedau. Gofynnwyd a oedd yn bosibl i wardiau ddod ynghyd er mwyn bod yn fwy integredig. Dywedodd Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd fod gwaith ar y cyd yn arfer da a'i fod yn cael ei annog. Yn ogystal, roedd yn galonogol nodi bod y llythyr a gafwyd gan y Gweinidog dros Drafnidiaeth yn annog Awdurdodau Lleol i adolygu eu Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer teithio llesol dros y flwyddyn nesaf ac yn nodi y byddai cymorth ymarferol yn cael ei ddarparu i'w galluogi i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion cymunedau lleol.

- Wrth gydnabod y Rheoliadau Mynediad i Gerbydau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2020, a oedd yn ei wneud yn ofynnol i'r holl gerbydau cludiant ysgol, sydd wedi'u cofrestru i gludo teithwyr sy'n talu am sedd, gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd/Rheoliadau Mynediad i Gerbydau'r Gwasanaeth Cyhoeddus, mynegodd y Pwyllgor nifer o bryderon. Roedd y pryderon a fynegwyd yn ymwneud â pha mor briodol yw'r dulliau presennol o ran llwybrau diogel i'r ysgol a'r pellter cerdded statudol presennol. Er iddo gydnabod bod cyllid cyfyngedig ar gael, roedd y Pwyllgor yn credu, o ystyried y newidiadau deddfwriaethol, y dylai'r Awdurdod roi blaenoriaeth i ddarparu llwybrau diogel.

  Eglurodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd, o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol, fod y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror, 2020 wedi cymeradwyo sefydlu Panel Ymgynghorol trawsbleidiol i gynnal adolygiad cyffredinol o bolisi cludiant ysgol yr awdurdod (gweler cofnod 11). Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r Panel yn cynnal adolygiad lefel uchel o'r polisi cludiant ysgol presennol, yn adolygu'r newidiadau i'r defnydd o'r Rheoliadau Mynediad i Gerbydau’r Gwasanaeth Cyhoeddus i wasanaethau lleol ac yn cynnal adolygiad lefel uchel o gostau'r ddarpariaeth cludiant ysgol a fyddai'n cynnwys heriau o ran y gadwyn gyflenwi yn deillio o'r defnydd o'r Rheoliadau Mynediad i Gerbydau’r Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn dilyn yr adolygiad, byddai'r Panel Ymgynghorol yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol.

  Er gwaethaf gwaith y Panel Ymgynghorol Adolygu Cludiant i'r Ysgol, dywedwyd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar lefel genedlaethol pa mor briodol yw ei dull presennol o asesu llwybrau diogel a hefyd adolygu ar frys y pellteroedd sy'n briodol i ddisgyblion gerdded/beicio i'r ysgol. Cynigiwyd y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog dros Drafnidiaeth yn gofyn i Lywodraeth Cymru gynnal yr adolygiadau a nodwyd uchod a sicrhau bod unrhyw arian ychwanegol angenrheidiol ar gael. Eiliwyd y Cynnig.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn i leihau'r pellter cerdded statudol presennol o'r cartref i'r ysgol, pwysleisiodd Rheolwyr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd i'r Pwyllgor fod ystyriaeth flaenorol i'r goblygiadau ariannol yn awgrymu y byddai pob milltir a gaiff ei leihau yn arwain at gynnydd amcangyfrifedig blynyddol o £10m o ran cyllideb refeniw'r Awdurdod Lleol.

- Mewn ymateb i gais am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd llwybr beicio y Cardi Bach, eglurodd Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd fod peth cyllid wedi cael ei glustnodi i ymgymryd â dyluniad a chynllun dichonoldeb ac felly, yn amodol ar gyllid, nid oedd unrhyw reswm na fyddai hyn yn digwydd.

- Dywedwyd nad oedd unrhyw fuddsoddiadau mewn cynlluniau yn ymwneud â diogelwch ffyrdd a/neu gynlluniau seilwaith eraill yn cael eu hadlewyrchu yn y crynodeb ar gyfer unrhyw ardaloedd i'r gorllewin o Gaerfyrddin. Eglurodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod cynlluniau diogelwch ffyrdd wedi'u neilltuo ar gyfer ardaloedd lle mae risg uchel.

- Ymatebodd y Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth i ymholiadau plwyfol mewn perthynas â Pharc Ysgol Hendy-gwyn ar Daf a Gorsaf Fysiau Caerfyrddin.

- Cyfeiriwyd at y Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan. Mewn ymateb i bryder a godwyd ynghylch yr effaith negyddol ar ardaloedd gwledig oherwydd y diffyg pwyntiau gwefru trydan sydd ar gael, esboniodd Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd fod ardaloedd gwledig yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan ond nad oedd yr union leoliadau wedi'u pennu eto.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod:**

**5.1 y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at y Gweinidog dros Drafnidiaeth yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:**

**a) cynnal adolygiad o'r dull presennol o asesu llwybrau diogel;**
**b) adolygu ar frys y pellteroedd sy'n briodol i ddisgyblion gerdded i'r ysgol;**
**c) ystyried sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol angenrheidiol ar gael yn dilyn canlyniad yr adolygiadau a nodwyd uchod.**

**5.2 yr adroddiad diweddaru ynghylch y Rhaglen Fuddsoddi o ran Priffyrdd, Troedffyrdd a Diogelwch Ffyrdd yn cael ei dderbyn.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN GWEITHREDU

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn manylu ar y cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd yng nghanfyddiadau adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch y ddarpariaeth cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd. Cafodd adroddiad y grŵp ynghyd â'i argymhellion eu mabwysiadu gan y Bwrdd Gweithredol ar 4 Mawrth 2019.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb byr i'r Pwyllgor ynghyd â'r canlynol:

- cwmpas ac amcanion gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
- ei fethodoleg;
- argymhellion y Grŵp;
- adroddiad cynnydd manwl ar y camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd o ran pob un o'r argymhellion fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**7. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu.**

**8. MATER WEDI EI GYFEIRIO GAN Y PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - CYNLLUN TRAFNIDIAETH AR Y CYD DE-ORLLEWIN CYMRU**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau, yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2020, wedi penderfynu, ar ôl ystyried Cynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2020-23 yn ymwneud â'r Is-adran Eiddo sy'n berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor, "gofyn i Bwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ystyried modd i sicrhau gwelliannau i Gynllun Trafnidiaeth ar y cyd De-orllewin Cymru gyda'r bwriad o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin."

Nodwyd, wrth ystyried y Cynllun Busnes, y cyfeiriwyd at y problemau a wynebir o ran recriwtio staff a bernid bod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus addas hefyd wedi cyfrannu at y broblem.

Er mwyn i'r Pwyllgor allu ymgymryd â'r cais, gofynnwyd bod adroddiad yn rhoi gwybodaeth am Gynllun Trafnidiaeth ar y Cyd De-orllewin Cymru yn cael ei gynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnwys adroddiad gwybodaeth ynghylch Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd De-orllewin Cymru ym Mlaenraglen Waith 2020/2021 y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd.**

**9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 21 Ebrill, 2020 a rhoddwyd y cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am wybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiadau.

Pwysleisiodd y Cadeirydd, oherwydd nifer yr eitemau ar yr agenda, y byddai'r cyfarfod yn debygol o barhau yn y prynhawn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol.**

**10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 IONAWR 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2020 gan eu bod yn gywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**